OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3371 (Cy.298) (C.141)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2007

Gwnaed - - - - 27 Tachwedd 2007

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 108(1)(b) a (2) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Ddeddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

Darpariaethau Deddf 2005 sy'n dod i rym ar 18 Ionawr 2008

2. Daw darpariaethau canlynol Deddf 2005 i rym ar 18 Ionawr 2008—

(a) adran 106 ac Atodlen 4, mewn cysylltiad â pharagraffau 5 i 9 ac 14 i 19 o Atodlen 4 (Mân Ddiwygiadau a Rhai Canlyniadol) yn unig;

(b) adran 107 a Rhan 3 o Atodlen 5 (Diddymiadau), mewn cysylltiad â diddymu adran 324(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**3**) ac adran 43(10) ac (11) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**4**) yn unig;

(c) adran 107 a Rhan 7 o Atodlen 5 (Diddymiadau), mewn cysylltiad ag adran 9 o Ddeddf Swn a Niwsans Statudol 1993(**5**) ac Atodlen 3 iddi a'r pennawd i adran 2 ac adrannau 8(8), 9(3) a 9(4A) o Ddeddf Swn 1996(**6**) yn unig;

(**1**) 2005 p. 16.
(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**3**) 1990 p. 8.
(**4**) 2003 p. 38.
(**5**) 1993 p. 40.
(**6**) 1996 p. 37.

(ch) adran 107 a Rhan 9 o Atodlen 5 (Diddymiadau), mewn cysylltiad ag adran 45 (3) i (9) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn unig.

Jane Davidson
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,
27 Tachwedd 2007 Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau pellach Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 ("Deddf 2005") o ran Cymru.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 18 Ionawr 2008 ddarpariaethau canlynol Deddf 2005:

(a) paragraffau 5 i 7 o Atodlen 4 i Ddeddf 2005 sy'n gwneud mân ddiwygiadau i destun Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Ddeddf 1990");

(b) paragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf 2005 sy'n diwygio adran 95(1)(c) o Ddeddf 1990 fel bod y gofrestr gyhoeddus o orchmynion a hysbysiadau, y mae adran 95 o Ddeddf 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ei chadw, yn cynnwys copïau o bob gorchymyn a wneir o dan baragraff 2(1) o Atodlen 3A i Ddeddf 1990 mewn perthynas â dynodi tir at ddibenion rheoleiddio dosbarthu deunydd printiedig yn ddi-dâl;

(c) paragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf 2005 sy'n diwygio adran 96 o Ddeddf 1990 gyda'r effaith o alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas ag ysbwriel a gaiff ei gasglu gan brif awdurdodau ysbwriel o dan adran 92C(3) o Ddeddf 1990. Mae adran 92C(3) o Ddeddf 1990 yn ymwneud ag ysbwriel a gesglir gan brif awdurdod ysbwriel pan fydd person wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad clirio ysbwriel a ddyroddwyd gan yr awdurdod hwnnw o dan adran 92A o Ddeddf 1990;

(ch) mae paragraff 14 o Atodlen 4 i Ddeddf 2005 yn rhoi is-adran (1) newydd yn adran 45 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ("Deddf 2003") gyda'r effaith bod cosbau penodedig yn unol ag adran 43(1) (graffiti a gosod posteri'n anghyfreithlon) o Ddeddf 2003 yn daladwy i'r awdurdod lleol y dyroddwyd yr hysbysiad gan ei swyddog awdurdodedig;

(d) mae paragraff 15 o Atodlen 4 i Ddeddf 2005 yn cymhwyso i adrannau 43A a 43B o'r Ddeddf honno ddiffiniadau a geir yn adran 47(1) o Ddeddf 2003. Effaith hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â chosbau sy'n daladwy yn unol â hysbysiad o dan adran 43(1) o Ddeddf 2003 (graffiti a gosod posteri'n anghyfreithlon);

(dd) mae paragraffau 16 i 19 o Atodlen 4 i Ddeddf 2005 yn rhoi'r term "defacement removal notice" yn lle "graffiti removal notice" yn adrannau 48, 49 a 51 o Ddeddf 2003, ac ym mhennawd adran 52 o'r Ddeddf honno;

(e) mae paragraff 17(7) o Atodlen 4 i Ddeddf 2005 yn mewnosod y geiriau "but not a parish or community council" yn y diffiniad o "local authority" yn adran 48(12) o Ddeddf 2003. Effaith hyn yw atal cynghorau plwyf a chynghorau cymuned rhag dyroddi hysbysiadau gwaredu graffiti, rhag cyflawni gwaith adfer pan na chydymffurfir â hysbysiad gwaredu graffiti a rhag adennill treuliau a dynnir wrth wneud hynny;

(f) mae Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2005 yn cynnwys diddymiadau i adran 324(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adran 43(10) ac (11) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003;

(ff) mae Rhan 7 o Atodlen 5 i Ddeddf 2005 yn cynnwys diddymiadau i adran 9 o Ddeddf Swn a Niwsans Statudol 1990 ac Atodlen 3 iddi ac i'r pennawd i adran 2 ac adrannau 8(8) a 9(3) o Ddeddf Sŵn 1996;

(g) mae Rhan 9 o Atodlen 5 i Ddeddf 2005 yn cynnwys diddymiad i adran 45(3) i (9) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf 2005 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru gan orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Darpariaeth	*Dyddiad cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 2 — at ddibenion penodol	16 Mawrth 2006	2006/768 (Cy.75)(C.18)
Adran 2 — at ddibenion sy'n weddill	19 Chwefror 2007	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 6 — at ddibenion penodol	16 Mawrth 2006	2006/768 (Cy.75)(C.18)
Adran 6 — at ddibenion sy'n weddill	15 Mawrth 2007	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 7	15 Mawrth 2007	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 8 — at ddibenion penodol	16 Mawrth 2006	2006/768 (Cy.75)(C.18)
Adran 8 — at ddibenion sy'n weddill	15 Mawrth 2007	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 9	15 Mawrth 2007	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 10 — at ddibenion penodol	16 Mawrth 2006	2006/768 (Cy.75)(C.18)
Adran 10 — at ddibenion sy'n weddill	15 Mawrth 2007	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 11	27 Hydref 2006	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 12	27 Hydref 2006	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 13 — at ddibenion penodol	16 Mawrth 2006	2006/768 (Cy.75)(C.18)
Adran 13 — at ddibenion sy'n weddill	27 Hydref 2006	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 15	27 Hydref 2006	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 16	27 Hydref 2006	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 17 — at ddibenion penodol	16 Mawrth 2006	2006/768 (Cy.75)(C.18)
Adran 17 — at ddibenion sy'n weddill	27 Hydref 2006	2006/2797 (Cy.236)(C.93)
Adran 19 — at ddibenion penodol	16 Mawrth 2006	2006/768 (Cy.75)(C.18)
Adran 19 — at ddibenion sy'n weddill	15 Mawrth 2007	2006/2797 (Cy.236)(C.93)